



## **Cyngor Tref Llandeilo Fawr - Llandeilo Fawr Town Council**

### **Swyddog Cyfleusterau / Facilities Officer**

#### **Cyflwyniad:**

Mae Cyngor Tref Llandeilo yn awyddus i recriwtio Swyddog Cyfleusterau rhan amser i ymuno â thîm o dri swyddog rhan amser sy'n adrodd i'r Cyngor i ymgymryd â'r dyletswyddau fel y disgrifir ar y fanyleb person atodedig. Bydd y person hwn yn gyfrifol am ddelio â phob agwedd ar barciau ac asedau'r Cyngor. Mae'r manylion llawn ar y Disgrifiad Swydd isod ond bydd y sgiliau penodol yr ydym yn chwilio amdanynt yn cynnwys:

- Gwirio diogelwch y parciau drwy archwiliad corfforol rheolaidd
- Trefnu dyfynbrisiau cynhaliaeth a chynnal a chadw'r holl asedau
- Mynychu cyfarfodydd llawn y cyngor yn ogystal â chyfarfodydd pwyllgor perthnasol ar gyfer y rôl (tua 1 neu 2 y mis ac mae'r rhain ar nosweithiau yn ystod yr wythnos)
- Darparu adroddiadau a chynghor i'r Cyngor pan fo angen
- Dangos sgiliau datrys problemau da i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o ddatrys materion a allai godi wrth oruchwylio ased neu brosiect
- Bydd sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol yn hanfodol i ddeiliad y swydd
- Sgiliau rheoli amser da

#### **Broses ymgeisio:**

Cais drwy CV a llythyr eglurhaol gyda'r dyddiad cau ar ddydd Mercher 26 Chwefror 2025

Cynhelir cyfweiliadau personol yn Llandeilo yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 3 Mawrth 2025

Cychwyn Swydd: Cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Ceisiadau, i gynnwys gwybodaeth gyswllt dau ganolwr, i'w gwneud erbyn canol dydd Mercher 26 Chwefror 2025 drwy e-bost at Glerc y Dref yn [Clerk.ltc@gmail.com](mailto:Clerk.ltc@gmail.com)

#### **Trafodaeth anffurfiol:**

Croesewir trafodaeth anffurfiol gyda'r Clerc a gellir ei threfnu drwy'r cyfeiriad e-bost uchod.